


Cynllun 8 pwynt tymor byr i dyfu'r Gymraeg - Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

(yn seileidig ar yr argymhellion yn ein Maniffesto Byw)

Mae'r canlyniadau yn dangos na chyflawnwyd dau o brif amcanion *Iaith Pawb*: bu gostyngiad nid yn unig yn y canran o siaradwyr Cymraeg, o 21% i 19%, ond hefyd yn y nifer o wardiau gyda dros 70% yn medru'r iaith. Yn fras, ymddengys fod tua 3,000 yn llai o siaradwyr Cymraeg bob blwyddyn.



Credwn fod cyfrifoldeb penodol arnoch chi fel Prif Weinidog i arwain y gweithredu brys sydd ei angen i wneud y Gymraeg yn gynaliadwy yn ein cymunedau. Yn ystod y ddau fis diwethaf, mae dros 1,200 wedi mynychu ein raliau yng ledled y wlad. Mae cannoedd hefyd wedi ysgrifennu at y Llywodraeth.

- A ydych yn cydnabod bod y Gymraeg mewn argyfwng a'i bod yn amser bellach i gynyddu'r ewyllys a'r egni mewn modd holistaidd yn yr holl feysydd polisi?
- A ydych yn cydnabod bod y Llywodraeth wedi methu eu targedau a'i bod yn bryd gosod cynllun brys mewn lle er mwyn adfer hyder pobl Cymru yn eich gweledigaeth ar gyfer dyfodol y Gymraeg?

IAITH

1. (a) Cynnal arolygiad o ôl-troed ieithyddol holl wariant gyhoeddus yng Nghymru. Dylid cynnal adolygiad o effaith iaith cyllideb Llywodraeth Cymru'n flynyddol gan gorff annibynnol megis Comisiynydd y Gymraeg. Rhodda'r adolygiad hwn ddarlun cliriach i bawb ynghylch y gwariant ar yr iaith Gymraeg, gwariant ar ddwyieithrwydd, a gwariant cyfrwng Saesneg. O gael darlun cliriach, byddai modd symud ymlaen i gynllunio sut i gynyddu'r gwariant cyfrwng Cymraeg.

(b) Dylai Llywodraeth Cymru pedryblu'r buddsoddiad yn y Gymraeg i agosau at lefel buddsoddiad Gwlad y Basg yn y Fasgeg. Cyfanswm gwariant ar yr iaith Fasgeg yn 2010 oedd **€156,515,417**. Gwelwyd cynnydd rhyfeddol yn y nifer o siaradwyr Basgeg yn ystod yr ugain mlynedd ddiwethaf mewn cymhariaeth â Chymru:

24% (1991), 28% (1996), 29% (2001), 30% (2006), 32%(2011)

2. Dylid mynd ati i lunio cynllun i sicrhau cyfundrefn addysg a fydd, dros amser, yn sicrhau bod pob plentyn yn gadael ysgol yn gwbl rugl yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn trwy gynlluniau megis hyfforddiant dwys i 1,000 o athrawon o fewn y dwy mlynedd nesaf, dileu'r cwrs byr Cymraeg a llunio model dysgu ac addysgu

Cymraeg sy'n seiliedig ar ddysgu siarad Cymraeg. Gellid wneud hyn gan gychwyn yn yr ardaloedd lle mae dros 50% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, ac yn benodol mewn "Ardaloedd Adfywio a Datblygu'r Gymraeg" (gw. 7. isod). Yn ogystal, dylid dysgu hanes gymdeithasol y Gymraeg a'r prosesau cymdeithasol sy'n effeithio'r Gymraeg i bob disgybl yng Nghymru.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, awdurdodau addysg, ysgolion unigol.

3. Dylid cyflwyno a phasio'r safonau fel a luniwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg erbyn diwedd y flwyddyn er mwyn cynyddu nifer y swyddi Cymraeg a phrif-ffrydio'r Gymraeg ar draws sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yng Nghymru. *Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru*

TAI A CHYNLLUNIO

4. Credwn y dylai bob awdurdod cynllunio ohirio symud ymlaen gyda'r Cynlluniau Datblygu Lleol tan iddynt wneud asesiad o sefyllfa'r iaith yn yr awdurdod a llunio argymhellion penodol ar sut i ddiogelu ac i hyrwyddo'r Gymraeg yn ein cymunedau.

Cyfrifoldeb - Llywodraeth Cymru a phob awdurdod cynllunio - drafft 1af erbyn Medi 2013.

5. Sefydlu cynllun grantiau i brynwyr tai tro cyntaf ac adnewyddu'r stoc tai bresennol ac ariannu hyn trwy roi'r hawl i gynghorau i godi treth o 200% ar ail-gartrefi i fod yn weithredol o Ebrill 2013. *Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.*

6. Trwy'r Mesurau Datblygu Cynaliadwy a Chynllunio arfaethedig, sicrhau bod y Gymraeg a'i chymunedau yn gwbl ganolog i'r agenda cynladwyedd a'r gyfundrefn gynllunio. Dylid llunio mesurau a fyddai'n gwneud y Gymraeg a'i chymunedau yn rhan o'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru; asesu'r angen lleol am dai cyn datblygu; sicrhau'r hawl i gartref am bris teg (i'w rentu neu i'w brynu) yng nghymuned y person sy'n rhentu neu brynu; blaenoriaeth i bobl leol drwy'r system bwyntiau tai cymdeithasol; system gynllunio sydd yn gweithio er budd y gymuned; sicrhau ailasesu caniatâd cynllunio blaenorol; gosod asesiadau effaith iaith annibynnol ar sail statudol; a sefydlu arolygaeth gynllunio annibynnol i Gymru.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru

GWAITH

7. Dylai pob sefydliad cenedlaethol a rhanbarthol yng Nghymru lunio cynlluniau gweithredu tymor byr i ddatblygu ac i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gan gynnwys adnabod y swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ac i glustnodi cyllideb teilwng ar gyfer hyfforddiant yn y gweithle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg; cynnig cyfleoedd i loywi ac i ddysgu Cymraeg yn y gweithle. Cysylltu hyn gyda chymhwyster Lefel 1, 2 a 3 "Cyfathrebu yn y Gymraeg yn y gweithle."

Cyfrifoldeb pob sefyliad, megis ymddiriedolaethau iechyd, awdurodau lleol, Cymdeithas Gwirfoddol Cymru (WCVA), erbyn Mehefin 2013.

8. Dylid sefydlu Cyfarwyddiaeth a Phwyllgor Llywio Cenedlaethol erbyn Ebrill 2013 i ail-wampio cylch gorchwyl y Mentrau Iaith i gynyws hyrddo mentrau gwaith yn arbennig mentrau cymunedol cydweithredol - ac i seilio hyn ar glustnodi 10 o ardaloedd "Adfywio a Datblygu'r Gymraeg" - cynllun peilot i'w hariannu gan gyllid Adfywio Cymunedol Ewrop a Llywodraeth Cymru.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a Mentrau Iaith Cymru.